


25. Darn allan **Cymru Fydd** gan Saunders Lewis



ACT II - yr un noson, tua 10.15

- DEWI: Mi ddoist heb drwbwl?
 BET: Dim trwbwl yn y byd.
 DEWI: Dros y caeau?
 BET: Mi ddois ar hyd y ffordd fawr drwy'r pentre ac wedyn ar hyd y lôn yma.
 DEWI: Welaist ti ddim plismyn?
 BET: Mae'r plismyn siŵr o fod yn gwylio'r caeau amdanat. Roedd y pentre a'r lôn yn rhydd. Heblaw hynny mi all merch y ficer alw i weld gwraig y gweinidog am ddeg o'r gloch, debyg gen i.
 DEWI: Dyro dy gôt i mi. (*Mae hithau'n tynnu ei chot a'r ffunen am ei phen ac yn ysgwyd ei gwallt yn rhydd. Mae hi'n ferch hardd tua'r ugain oed. Mae Dewi yn rhoi ei dillad hi ar y gadair.*)
 BET: Roedd dy hanes di yn y newyddion ar y teledu heno.
 DEWI: Be' ddwedson nhw?
 BET: I'ti ei gloywi hi yn y niwl a bwrw rhyw drafaeliwr yn ei ben a mynd â'i gar o.
 DEWI: Ac wedyn?
 BET: Rhoi rhif y car a gofyn am unrhyw wybodaeth.
 DEWI: Wyt ti'n fy ffieiddio i?
 BET: Ti ddaru fy ffonio i.
 DEWI: Mentro.
 BET: A dyma fi.
 DEWI: Mae fy mywyd i yn dy law di.
 BET: O'r gorau. Dyro gusan i mi. (*Cofleidio a chusanu*)... O Dewi!
 DEWI: Sigarét?
 BET: Diolch. (*Mae ef yn tanio a'r ddau yn smocio*)
 DEWI: Does gen i ddim diod yma. Tŷ gweinidog.
 BET: Does gen innau ddim acw. Tŷ ficer. (*Mae'r ddau yn chwerthin...saib*)
 DEWI: Wel?
 BET: Wn i ddim sut mae dechrau, Dewi.
 DEWI: Na finnau.
 BET: Mae dy weld di... fel deffro o hunllef. Ie, hunllef.
 DEWI: Fuost ti'n poeni?
 BET: Paid â dechrau fel yna.
 DEWI: Y peth gorau ydi cychwyn fel y bydd pobl mewn sosial. On'd ydy hi'n noson gas? Ddaru ti 'lychu wrth ddŵad?
 BET: Naddo diolch yn fawr, syr. Doedd dim glaw. 'Lychais i ddim.
 DEWI: A sut mae'r ficer y dyddiau yma? Ydy o'n cael iechyd?
 BET: Rhyw fymryn o beswch reit hwylus. Newydd fynd i'w wely. Gan amlaf tua'r un ar ddeg y bydd o'n clwydo.
 DEWI: Rwyt ti'n para i gadw tŷ iddo fo?
 BET: Does gen i ddim dewis a Nain wedi marw.

debyg gen i - it seems to me

ffunen - hances/sgarff

gloywi hi - dianc/rhedeg

ffieiddio - casáu

ddaru - wnaeth

cofleidio - to caress

saib - pause

hunllef - nightmare

lychu - gwlychu

sosial - social event

clwydo - mynd i'r gwely

Gwybodaeth

Roedd Saunders Lewis yn un o ddramodwyr Cymraeg mwyaf enwog yr ugeinfed ganrif. Ganwyd ef yn Lerpwl ac yn fab i weinidog Methodist. Perfformiwyd *Cymru Fydd* gyntaf yn 1967. Mae Dewi, sydd hefyd yn fab y Mans, wedi troi yn droseddwr ac wedi cael ei garcharu. Cyn yr olygfa hon mae Dewi wedi dianc o'r carchar. Mae e'n cuddio yn nhŷ ei rieni ac mae ei gariad, Bet, wedi dod i'w weld. Dyma mae Saunders Lewis yn ei ddweud am y ddrama: 'Drama sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth a chrefydd yw hi... Dweud rhywbeth am y dewis sy'n wynebu Cymru heddiw yw mater y ddrama... a hynny ar lun stori.'